



Y Casglwr

Cysodwyd a dylunwyd gan Wasg Carndochan, Tanycastell, Llanuwchllyn, Gwynedd ac argraffwyd gan WPG, Y Trallwng, Powys

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

SWYDDOGION

Cadeirydd:

RHEINALLT LLWYD,
21 Penrheidiol, Penparcau,
Aberystwyth, SY23 1QN
(01970) 617587

Ysgrifennydd:

ANGHARAD JONES
1 Rhês y Priordy, Vinegar Hill,
Caernarfon, LL55 1TB
(01286) 677354 neu (01286) 679636

Trysorydd:

GWYNDAF ROBERTS,
Cae'r Hafod, Maes Caled,
Dolgellau LL40 1UF
(01341) 423959

Golygydd:

MEL WILLIAMS
Tanycastell, Llanuwchllyn,
Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA
(01678) 540652
e-bost: tanycastell@yahoo.com

CYNNWYS

	Tud.
Golygyddol	2
Cyfarfod Rhyfeddol	3
Alun a Dirgelwch y Gerdd Hela ...	5
Hel Atgofion Plentyndod	6
Delwedydd a'i Arwyr (2)	9
At y Golygydd	11
Madog - Chwilio am y gwirionedd ..	12
Cwmni Meini Dymunol	13
Llyfrynau Aberystwyth	14
'Tourist' yn Llangollen	15
Hwylio'r Hafren	17
Walter Whitman	21
Adolygiadau	22

LLUN Y CLAWR

Lonewolf - gweler erthygl tudalen 12

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd erbyn Medi 20

GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Miss Anne K. Till (01970) 920235

Golygyddol

Y Diwrnod Agored

Cyrchodd 70 o aelodau i'r Diwrnod Agored ym Mhortmeirion ar ddiwrnod anarferol o braf ym mis Ebrill eleni. Cafwyd darlithodd hynod ddiddorol gan y tri siaradwr, Y Parch Huw Jones, Y Parch Towyn Jones, a'r bonwr Dei Tomos. Gobeithir cyhoeddi eu cyfraniadau yn y cylchgrawn maes o law. Diolch, hefyd, i'r llyfrwerthwyr hynny a ddaeth â stondinau yno i roi cyfle i'r aelodau fachu bargeinion.

Y Ffair Lyfrau

Ddiwedd Ebrill, cynhaliwyd Ffair Lyfrau yn Festri Capel Heol Awst, Caerfyrddin. Arbrawf oedd hon i geisio profi'r dŵr mewn ardal newydd. Diolch i Jeff Towns, Dylan Books am ei waith yn cysylltu â'r siopau, a chael ychwaneg o stondinau a'r holl hysbysebu sy'n annatod wrth drefnu'r math hyn o weithgaredd. Diolch, hefyd i'r stondinwyr am eu cefnogaeth, yn enwedig y rhai a deithiodd o Bangor a Blaenau Ffestiniog i gyrraedd yno mewn da bryd yn y bore bach, neu y noson cynt, hyd yn oed. Agorwyd y Ffair gan Weinidog y Capel, Y Parch Towyn Jones, a mawr yw ein diolch iddo ac i Mrs Joan Thomas am fod wrth y te gydol y dydd a chyfrannu at y cyllid yn ychwanegol. Mae gweld aelodau ymroddgar sydd ddim yn cyfrif y gost yn holl bwysig ac yn angenrheidiol i fudiad elusennol fel y Gymdeithas.

Tanysgrifiadau

Yn anffodus, oherwydd y costau cynyddol, mae rheidrwydd arnom i godi'r tâl aelodaeth i £10 y flwyddyn. Dyma'r codiad cyntaf ers 10 mlynedd. Ond mae cur yn y pen yn dod yn sgîl hyn, hefyd. Does yna ddim byd yn hawdd. Er mwyn inni fanteisio ar y cynnydd, mae'n orfodol arnoch chi i lenwi'r ffurflen archeb banc newydd sy'n gynnwysedig hefo'r cylchgrawn a'i gyrru hi'n ôl atom ni a bydd yn weithredol o Ionawr 2008 ymlaen. Dwi'n

erfyn yn daer arnoch chi, sy'n talu trwy'r banc i ddychwelyd y ffurflen at y Trysorydd yn syth bin. Mi fydd hyn yn arbed gwario rhagor i gysylltu â chi eto.

Rhodd Gymorth

Dwi'n datgan yr un peth eto'r tro hyn. Dim ond oddeutu hanner o'r aelodau sydd wedi arwyddo'r ffurflen Rhodd Gymorth. Os nad ydych wedi anfon un, cysylltwch â ni ac mi anfonwn ffurflen arall ichi. Am bob un yr ydym yn ei dderbyn, allwn ni ennill £3 y pen.

Y Raffl

Fe welwch fod yna ddau lyfryn raffl y tu mewn eto eleni. Mae'r elw sy'n dod yn sgîl hon yn ein galluogi i dalu am stondin yn yr Eisteddfod, sydd bellach yn £800, ac yn rhoi ychydig i'r coffrau, hefyd. Felly, dwi'n gofyn am eich cefnogaeth hael, unwaith eto.

Yr Eisteddfod

Mi fyddwn â stondin yn yr Eisteddfod unwaith eto. Mantais hyn yw ein bod yn cyfarfod ffrindiau, cael cyfle i gael tanysgrifwyr newydd, cyfnewid syniadau ac yn fodd, hefyd, inni farchnata'r Gymdeithas. Fel arfer, rydym yn cael rhwng ugain a deg ar hugain o aelodau newydd. Hei lwc yn yr Wyddgrug.

Cofiwch ddarlith y Gymdeithas a draddodir eleni gan Dr Goronwy Wynne yn y Stiwdio ar Faes y Brifwyl ar ddydd Mercher am 3 o'r gloch.

Ffair Lyfrau y Bala

Bydd yna Ffair Lyfrau, recordiau a chreiriau yn Y Bala eto eleni ar 23 Medi. Gobeithir cynnal Ocsiwn yn y prynhawn. Os oes gan unrhyw un ohonoch lythyrau oddi wrth enwogion, papurau prin, hen greiriau a recordiau ac ati yr ydych awydd eu gwerthu, mi rown bris gosod arnynt a'r cyfan mae'r Gymdeithas yn ei ofyn yw deg y cant o'r gwerthiant. Felly, beth am gysylltu? Mi fyddai hyn yn gwneud Ocsiwn gwerth ei chael.

Cymdeithas Bob Owen

FFAIR LYFRAU, RECORDIAU A MÂN GREIRIAU

Ysgol y Berwyn, Y Bala

SADWRN 22 MEDI, 2007
10 y bore tan 4 y prynhawn

Miloedd o lyfrau yn ogystal â recordiau, hen greiriau a llawer mwy.

Cynhelir Ocsiwn yn y prynhawn

Mynediad £1 (yn cynnwys tē neu goffi)

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar 01678 540 652